

SING HOLIDAY

Lassana and Djanka Susso,
Nick Lewis, Lynise Esprit, Idrissa Camara, River Music Project



YNGLŶN Â'R GÂN HON

Cyfansoddwyd y gân hon ar y cyd â chantorion a cherddorion o River Music Project ac fe'i cenir yn Mandinka – iaith a siaredir gan tua 1.3 miliwn o bobl. Mae'r Mandinka yn grŵp ethnig Gorllewin Affrica a geir yn bennaf yn ne Mali, y Gambia a Guinea Bissau. Mae'r geiriau yn aml yn baradocsaidd, ychydig yn hurt, yn ymddangos yn ddisynnwyr ac yn y bôn yn awgrymu bod ffyrdd y byd yn ddirgelwch na all dyn bob amser ei esbonio.

THEMÂU/TESTUNAU

Dathliadau / byd / treftadaeth

CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Y Dyniaethau
Celfyddydau Mynegiannol

YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISBYBLAETH

Cwmpas Lleisiol
8fed

Ffurf Lleisiol

Unsain/pennill, strwythur galw ac ateb

Elfennau Cerddorol

Galw/Ateb, strwythur, ffurf

Nodweddion Cerddorol

Pennill a chytgan, yn ailadrodd alaw gydag elfen galw ac ymateb

Ymarferion Cynhesu

- Gofynnwch i'r dysgwyr anadlu'n ddwfn a hisian neu chwythu allan yn araf; cyfrif faint o amser mae dysgwyr yn ei gymryd i chwythu allan. Ailadroddwch yr ymarfer hwn, gan annog dysgwyr i wella ar yr amser blaenorol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr sefyll mewn cylch a chopio mynegiant eich wyneb, o syn a hir i agored a llachar. Gwnewch wên fawr a dangoswch y bochau a chorneli'r geg wedi'u codi. Gwnewch lygaid effro mawr ac aeliau uchel, yna yn ôl i lygaid caeedig. Gofynnwch i unigolion fod yn arweinydd a gweddill y grŵp i ddilyn mynegiant eu hwynebau.
- Arddangoswch rhythm nodweddiadol y gân. Curwch y rhythm a gofynnwch i'r dysgwyr glapio'n ôl. Canwch y rhythm i'r geiriau 'Sing Holiday oh Sing holiday.'



Awgrymiadau o gysylltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Mae mwy na 1.3 miliwn o bobl yn siarad Mandinka ac mae ganddi ei system iaith ei hun. Mae fersiynau o'r sgrïptiau Lladin ac Arabeg ar gyfer ysgrifennu Mandinka. Mae'r sgrïpt Ladin yn swyddogol, ond mae'r sgrïpt Arabeg yn cael ei defnyddio gan fwy o bobl, ac mae'n hŷn. Darganfyddwch mwy amdano. Sut mae'n debyg ac yn wahanol i'r llythrennau a'r synau a'r ffonog rydych chi'n eu hadnabod?
- Mae'r gair *Dunya* yn air am fyd sy'n ailddigwydd mewn diwylliannau Hindwâidd ac Arabaidd yn ogystal ag yn Mandinka ac mae iddo gynodiadau ac ystyr dwys i lawer o ddiwylliannau ledled y byd. Yn Islam mae'n cyfeirio at natur dros dro a chyflymder bywyd y byd hwn, yn wahanol i deyrnas dragwyddol yr ôl-fywyd, a elwir yn 'akhirah'. Dysgwch fwy am y gwahanol safbwyntiau o wahanol ddiwylliannau ledled y byd. Beth allai *Dunya* ei olygu i chi?
- Bafatá yw tref enedigol Djanka - y canwr ac un o awduron y geiriau. Mae'r crocodeiliaid sy'n patrolio glannau'r afon ledled Guinea Bissau yn enwog. Gofynnwch i unrhyw berson o Guinea Bissau a byddan nhw'n gwybod! Darganfyddwch mwy am yr ardal. Cymharwch lannau eich afon leol â glannau'r afon Gêba sy'n rhedeg trwy Bafatá.

GRADDFA: CANOLRADD

SING HOLIDAY

Lassana and Djanka Susso,
Nick Lewis, Lynise Esprit, Idrissa Camara, River Music Project



Addysgu a Dysgu

- 1 Gwrandewch ar y darn yr holl ffordd drwodd. Gofynnwch i'r plant beth maen nhw'n sylwi am y darn. (Ymadroddion ailadroddus, galw ac ateb, ailadrodd 'Sing Holiday' ar ddiwedd pob llinell ac ati)
- 2 Dechreuwch trwy ddysgu'r adran Corws: 'Sing Holiday' ar y sgrin gyntaf. Daw hyn i lawr graddfa yn y llinell gyntaf ac fe'i hailadroddir yn llinell dau. Defnyddiwch y dechneg 'Dwi'n canu, 'da chi'n canu' i ddysgu fesul llinell, neu chwaraewch y trac ar y sgrin, gan pwyso saib a thoglo'n ôl i ailadrodd er mwyn i'r plant ymuno.
- 3 Unwaith y byddwch yn gyfforddus â hyn, chwaraewch y gân drwyddi ac ymunwch â'r adran hon bob tro y caiff ei hailadrodd. (Sgriniau 1, 3&4, 6&7, 8&9)
- 4 Nesaf, toglwch i Sgrin dau a gwrandewch ar y Bennill. Dyma'r agwedd 'galwad ac ymateb'. Chwaraewch eto ac annogwch y plant i ymuno yn yr ymateb 'Sing Holiday' bob tro y caiff ei chanu.
- 5 Dysgwch eiriau'r Bennill 'galw' trwy ddweud y geiriau mewn rhythm yn gyntaf gan ddefnyddio'r dechneg 'Dwi'n deud, 'da chi'n deud'. Gwyliwch am y drydedd linell lle mae'r rhythm yn fwy anodd - mae'n dod i mewn yn syth ar ôl y 'Sing Holiday' yn llinell dau. Efallai y bydd angen ailadrodd hyn sawl gwaith nes yn hyderus.
- 6 Unwaith y bydd y rhythm wedi'i ddysgu, canwch bob llinell gan ddefnyddio'r dechneg 'Dwi'n canu, 'da chi'n canu' neu chwaraewch bob llinell a toglwch yn ôl i ailadrodd gyda'r plant yn canu. Ailadroddwch hyn ychydig o weithiau nes yn hyderus gyda'r alaw.
- 7 Ailadroddwch y dechneg hon i ddysgu Penillion 2 a 3.
- 8 Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, canwch y gân. Gallwch rannu'r dosbarth yn grwpiau 'galw' ac 'ymateb' i amlygu'r agwedd hon.

Sgiliau Cyfannol

- Mae gan y darn gyfeiliant tri chord sy'n ailadrodd trwy gydol y darn. Ydy'r plant yn gallu adnabod y tri nodyn 'bas' hyn (B, E, A) ar offerynnau traw? Ydyn nhw'n gallu chwarae'r rhain fel llinell fas i gyd-fynd, gan newid ar yr amser iawn trwy'r gân? Er mwyn ymestyn eu sgiliau ymhellach, gallai'r plant ychwanegu'r cord triad neu greu ostinato ailadroddus priodol i gyd-fynd â'r darn.
- Mae natur galw-ac-ymateb y gân yn nodweddiadol i gerddoriaeth Affricanaidd. Mae un llais yn canu ymadrodd melodig byr, ac mae'r ymadrodd hwnnw'n cael ei adleisio gan lais arall. Edrychwch ar ystyr y geiriau sydd ar gael o dan y tab Geiriau. Mae penillion 2 a 3 yn gyflwyniadau byrfyfyr sylfaenol i'r cerddorion. A yw'r plant yn gallu ysgrifennu eu geiriau galwad eu hunain i gyd-fynd â'r adran adnod ac i gyd ymateb gyda 'Sing Holiday'.
- Mae cerddoriaeth Affricanaidd yn fyrfyfyr iawn. Mae patrwm rhythmig craidd yn cael ei chwarae fel arfer, gyda drymwy'r wedyn yn byrfyfyr i patrymau newydd dros y patrymau gwreiddiol sefydlog. Gofynnwch i'r plant arbrofi ar offerynnau taro yn yr ystafell ddosbarth a gwneud eu rhythm eu hunain yn fyrfyfyr. Creu patrwm galw ac ymateb gan ddefnyddio offerynnau taro wedi'u tiwnio neu heb eu tiwnio mewn arddull tebyg. Ydyn nhw'n gallu chwarae gyda'r darn gan gadw at amser, rhythm ac arddull?

GRADDFA: CANOLRADD

SING HOLIDAY

Lassana and Djanka Susso,
Nick Lewis, Lynise Esprit, Idrissa Camara, River Music Project



Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

- Yn nodweddiadol mae gan kora 21 o dannau, sy'n cael eu chwarae trwy dynnu gyda'r bysedd. Mae'n cyfuno nodweddion y liwt a'r delyn. Ymchwiliwch ymhellach i'r offeryn traddodiadol hwn a'r ffordd y caiff ei chwarae. Sut mae'n cymharu ag offerynnau traddodiadol gwledydd eraill?
- Mae'r gân yn dechrau gyda chyflwyniad meistrolgar offerynnol o'r enw birimintingo, a nodweddir gan rediadau cyflym, rhinweddol, byrfyfyf. Mae hyn yn cael ei chwarae ar y kora, offeryn llinynnol a ddefnyddir yn helaeth yng Ngorllewin Affrica. Dysgwch fwy am y birimintingo a'r kumbengo a pham ei fod yn bwysig yng ngherddoriaeth Mande.
- Mae'r Mandinka yn ddisgynyddion i Ymerodraeth Mali. Nid oedd ei thrigolion yn meithrin iaith ysgrifenedig, yn hytrach yn cynnal gwybodaeth ar lafar. Roeddent yn gerddorion, a'u prif rôl oedd rhannu gwybodaeth a thraddodiadau'r gymuned, gan gynnwys hanes, diarhebion, a chyfreithiau. Mae hon yn broses sy'n parhau hyd heddiw. Maent yn parhau i ddathlu eu hetifeddiaeth gyffredin trwy stori a chân. Darganfyddwch fwy am hyn a'r rôl bwysig y mae adrodd straeon trwy chwarae caneuon yn ei chwarae yn niwylant Mandinka.

Asesu ar gyfer Dysgu:

- Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Holi

Adnodd: Meddwl-paru-rhannu

- Pa fath o awyrgylch ydy'r gân yma yn ei greu? Sut?
- Beth yw strwythr y gân? Esboniwch eich ateb.
- Sut ydy'r cyfansoddwyr yn creu gwead yn y darn?

Adborth

Adnodd: Sut i wella

Rhowch sylwadau dros dro i ddysgwyr ar feysydd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu. Er mwyn gwella eu cywirdeb rhythm, efallai y bydd angen ailedrych ar clapio mewn amser i'r darn yn 4 curiad cyson cyn ceisio rhythmau mwy cymhleth neu byrfyfyf. Rhowch amser i ddysgwyr gweithredu ar y sylwadau hyn yn ystod y sesiwn, ac yna rhoi sylw eto i weld os ydynt wedi bod yn llwyddiannus.

Hunanesiad / Asesiad gan gyfoedion

Adnodd: Deialog dysgwr i ddysgwr

Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd eu tro i fod yn athro wrth drafod y perfformiad ac i ofyn cwestiynau. Efallai y bydd angen i chi rhoi rhai awgrymiadau iddynt o gwestiynau posibl, er enghraifft:

- Oedd hon yn gân anodd neu hawdd i'w dysgu? Pam?
- Beth ydych chi'n ei hoffi / ddim yn ei hoffi am y gân hon?
- Sut wnaethoch chi ddarganfod ysgrifennu eich geiriau eich hun?

Mae'r gân hon yn waith gydweithredol gyda River Music Project.

Lassana Susso
Djanka Susso
Nick Lewis
Lynise Esprit
Idrissa Camara
www.rivermusic.co.uk

GRADDFA: CANOLRADD